# YMWELIADAU SAFLEOEDD CYNLLUNIO

## Adroddiad ar y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Ebrill 2011

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Eric Roberts (Cadeirydd);<br>Cynghorydd E.G. Davies; Jim Evans; K.P. Hughes;T.H.Jones;<br>R.L. Owen; J. Penri Williams;<br>Gareth W. Roberts (Aelod Lleol Safle 2) |
| **WRTH LAW:** | Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu (DPJ)<br>Swyddog Tirlunio a Choed (EH)<br>Swyddog Pwyllgor (JMA)<br>Cymhorthydd Gweinyddol (SWJ) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Lewis Davies, J. Arwel Roberts, Selwyn Williams; |

**1 35C87C - TROS Y MARIAN, LLANGOED.**

**Addasu'r adeiladau allanol presennol yn 7 o unedau preswyl ynghyd â gosod gwaith trin carthffosiaeth preifat yn Tros y Marian, Llangoed.**

*Cafwyd datganiad o ddiddordeb gan y Cynghorydd Lewis Davies ac nid oedd yn bresennol ar yr ymweliad safle.*

Yn ei gyfarfod gynhaliwyd 6 Ebrill 201, roedd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion wedi penderfynu ymweld â'r safle er mwyn rhoi cyfle i'r Pwyllgor weld union safle'r datblygiad, yn dilyn ymweld â'r safle ar 16 Mawrth 2011 i edrych ar y fynedfa i'r safle yn unig.

Dywedodd yr Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu bod y safle ym mhen trac preifat gyda rhan o'r trac hwnnw yn cael ei rannu. Clwstwr o adeiladau allanol amaethyddol sydd ar y safle ac maent wedi'u rhestru a'r bwriad yw eu haddasu i greu 7 annedd. Roedd yr ymgeisydd wedi cytuno i ledu'r fynedfa ac i wella'r gweledEdd i mewn ac allan o'r safle. Roedd arolwg o'r defnydd a wneir o'r ffordd wedi'i wneud ac roedd ymgynghorwyr annibynnol wedi mynegi eu safbwyntiau o safbwynt priffyrdd.

Roedd yr Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu am atgoffa'r aelodau bod yr adeiladau yn rhai rhestredig a bod y safle'n gorwedd o fewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Edrychwyd ar bob un o'r 7 uned arfaethedig o bob ongl ac edrychwyd ar y cynlluniau presennol a'r rhai arfaethedig mewn perthynas â phob un o'r adeiladau.

**2 11C557B – YSGELLOG, RHOSGOCH**

**Codi dau dyrbin gwynt gyda diamedr rotor hyd at uchafswm o 71 metr a blaen llafn hyd at uchafswm o 92.5 metr ynghyd â chodi isbwerdy ac adeilad rheoli, trac mynedfa newydd, mannau caled a datblygiadau cysylltiedig ar dir yn Ysgellog, Rhosgoch.**

Dywedodd yr Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu mai cais oedd hwn am ddau dyrbin gwynt gyda diamedr rotor hyd at 71 metr ac uchafswm hyd lafn o 92.5 metr. Byddai pob tyrbin yn cynhyrchu 2.3 megawatts o drydan fyddai'n cael ei fwydo'n ôl i'r Grid Cenedlaethol. Gwnaeth y Swyddog Tirlunio a Choed gymhariaeth gydag anemomedr 60 metr oedd gerllaw er mwyn i'r aelodau fedru defnyddio hyn fel rhywbeth i'w gymharu ag ef. Edrychodd yr aelodau ar y cynnig o safbwynt ei effaith ar y dirwedd o 6 gwahanol sefyllfa gyda radiws o 2k ac edrychwyd hefyd ar ffotograffau o'r Asesiad Tirlun a'r Asesiad Gweledol.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod, cadarnhaodd yr Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu bod y lefelau sŵn yn bodloni anghenion Adain Iechyd Amgylcheddol y Cyngor.

**Y CYNGHORYDD ERIC ROBERTS**
**CADEIRYDD**